Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Seilwaith Bach – Canllawiau Cyffredinol

**Medi 2026**



# Cynnwys


Adran A: Cyflwyniad ........................................ 3
Adran B: Pwy sy'n gymwys ........................................ 4
Adran C: Cyfradd a throthwy uchaf y grant ........................................ 7
Adran D: Caniatadau a Chymeradwyaethau ........................................ 8
Adran E: Y broses ymgeisio, dewis a dyfarnu grant ........................................ 9
Adran F: Amodau’r Grant ........................................ 12
Adran G: Amgylchiadau'n Newid ........................................ 15
Adran H: Tynnu cais yn ôl neu dynnu eitemau ........................................ 16
Adran I: Taliadau ........................................ 17
Adran J: Archwiliadau ........................................ 23
Adran K: Cadw Cofnodion ........................................ 24
Adran L - Newidiadau i Ddeddfwriaeth a'r Rheolau ........................................ 25
Adran M: Y Drefn Apelio a Chwyno ........................................ 26
Adran N: Monitro a Gwerthuso ........................................ 28
Adran O: Hysbysiad Preifatrwydd: Grantiau Llywodraeth Cymru ........................................ 32
Adran P: Manylion Cyswllt ........................................ 34
Atodiad A: Eitemau cymwys ........................................ 35
Atodiad B: Gofynion ffotograffau â geotag ........................................ 43
Atodiad C: Matrics sgorio ........................................ 45
Atodiad D: Map Problemau Maetholion Manwl ........................................ 46

# Canllaw Cyflym

## Ar gyfer pwy mae'r canllawiau hyn

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer cwsmeriaid **nad ydynt wedi** hawlio taliad Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS).

## Beth yw'r grant hwn?

Mae'r grant hwn yn neilltuo cyllid tuag at ddarparu toeon a seilwaith cysylltiedig i helpu i reoli maetholion yn well, diogelu dŵr glaw rhag cael ei lygru gan slyri a thail ac i ddefnyddio adnoddau ar y fferm yn fwy effeithlon.

## Pa eitemau sy'n gymwys

- To dros fannau bwydo da byw sy'n bod.
- To dros fannau crynhoi da byw sy'n bod.
- To dros storfeydd tail sy'n bod.

Er mwyn bod yn gymwys, bydd gan y mannau hyn lawr concrit na all dŵr dreiddio trwyddo.

## A ga i wneud cais?

Gallwch wneud cais ar **Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein**, cyn belled â'ch bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer bod yn gymwys.

## Faint o gyllid sydd ar gael?

- Cynigir grant safonol o £40 fesul m2 o do sy'n cael ei osod.
- Y grant lleiaf fesul cais fydd: £3,000
- Bob blwyddyn ariannol, y grant mwyaf fesul CRN fydd: £15,000

Gallwch gyflwyno mwy nag un cais yn ystod y flwyddyn ariannol, cyn belled na chaiff mwy na £15,000 o grant ei roi i chi mewn blwyddyn ariannol.

## Pryd ca' i ymgeisio?

Gallwch gyflwyno cais unrhyw adeg o'r flwyddyn

## Cyn i chi wneud cais:

☑ Sicrhewch fod y man rydych am osod to drosto yn bodloni gofynion y cynllun.
☑ Gwnewch yn siŵr bod llawr concrit sy'n dal dŵr ar y mannau storio tail a bwydo a chrynhoi da byw.
☑ Holwch a oes angen Caniatâd Cynllunio a/neu gymeradwyaeth SAB.

**PWYSIG – peidiwch â:**

❌ Phrynu eitem cyn derbyn eich Llythyr Dyfarnu Grant (GAL).

❌ Prynu deunydd ail-law.

❌ Gwneud cais am storfa dail a mannau bwydo a chrynhoi da byw newydd.

❌ Gwneud cais i osod to dros fannau bwydo neu drin da byw dros dro.

❌ Troi'r man dan do yn sied cadw da byw ar ôl ei gwblhau.

❌ Gwneud cais am gymorth os oes cyllid wedi'i roi ar gyfer y man hwnnw o'r blaen.

## Beth fydd yn digwydd nesaf os bydda i'n llwyddiannus?

Byddwch yn cael Llythyr Dyfarnu Grant trwy RPW Ar-lein.

Rhaid ichi:
1. Gadarnhau'ch bod yn derbyn y grant a gynigir o fewn 21 diwrnod.
2. Cwblhau'r holl fuddsoddiadau.
3. Talu am yr eitemau yn llawn.
4. Cyflwyno'ch hawliad a thystiolaeth ategol **cyn y dyddiad cau ar gyfer hawlio.**

## Beth sydd angen i mi ei gyflwyno gyda fy hawliad?

Bydd angen ichi gyflwyno'r canlynol:

- Anfonebau ar gyfer yr eitemau sy'n cael eu hawlio
- Cyfriflen banc neu dystiolaeth arall sy'n dangos bod y taliad wedi gadael eich cyfrif banc
- Ffotograffau â geotag yn dangos y gwaith wedi'i gwblhau
- Tystiolaeth bod y gofynion draenio dŵr glaw a slyri wedi'u bodloni
- Caniatâd cynllunio os oes ei angen.
- Tystiolaeth nad oes angen caniatâd cynllunio (os yw'n berthnasol)
- Cymeradwyaeth gan SAB neu gadarnhad nad oes ei angen

# Adran A: Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer cwsmeriaid nad ydynt wedi hawlio taliad Haen Gyffred-inol yr SFS.

O dan y categori Opsiynol hwn, mae grant cyfalaf ar gael i gefnogi ffermwyr yng Nghymru i wella'r seilwaith ar y fferm drwy atal dŵr glaw glân rhag llifo i systemau rheoli slyri a thail. Bydd hyn yn helpu i wella perfformiad technegol, y defnydd o adnoddau a chanlyniadau amgylcheddol gan gefnogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy.

Darllenwch y canllaw hwn yn ofalus ynghyd â'r 'Canllawiau Sut i Ymgeisio' os ydych am wneud cais.

Gan adeiladu ar brofiad ac adborth cynlluniau blaenorol, dyma'r prif newidiadau i'r categori hwn:

- Gallwch gyflwyno cais unrhyw bryd yn y flwyddyn ariannol, nid oes ffenestri ymgeisio penodol.
- Gall mwy nag un cais a dyfarniad grant fod yn fyw ar unrhyw adeg, cyn belled â'ch bod yn cadw at amodau penodol.
- Mae gennych yr opsiwn, pan fydd hynny'n gymwys, i wneud cais am gyllid o'r flwyddyn ariannol nesaf.
- Byddwn yn sgorio ceisiadau sawl gwaith gydol y flwyddyn.
- Rhaid ichi gadarnhau'ch bod yn derbyn dyfarniad grant a gynigir ichi o fewn 21 diwrnod ar ôl ei gynnig. Wrth gadarnhau'ch bod yn derbyn y grant, bydd gofyn i chi gwblhau proffil talu bras, gan nodi pryd byddwch chi am gyflwyn-o'ch hawliad.

Bydd y ffurflen gais ar gael o 17 Medi 2026 a bydd ar agor tan fis Mawrth 2028. Wedyn bydd ar gau am gyfnod byr er mwyn i ni allu gwneud newidiadau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan, GWLAD ar-lein ac os oes angen, byddwn yn cysylltu â chi'n uniongyrchol.

Rydyn ni (Llywodraeth Cymru) eisiau gweithio gyda busnesau a sefydliadau sy'n falch o'u henw da, o'r hyn maen nhw'n ei gyflawni ac o'u hymddygiad. Mae'r ddolen sy'n dilyn yn mynd â chi at ganllawiau sy'n esbonio'r mathau o ymddygiad, diwylliant a gwerthoedd y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r rheini sy'n derbyn grantiau ganddi eu harddel.

**Yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gan y rhai hynny sy'n derbyn grant**

# Adran B: Pwy sy'n gymwys

Rydych yn gymwys i wneud cais os ydych wedi'ch cofrestru gyda Llywodraeth Cymru ac wedi cael CRN. I gael cyngor ar sut i gofrestru, ewch i wefan Llywodraeth Cymru neu ffoniwch Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW ar 0300 062 5004.

Rhaid:

- bod gennych o leiaf 3 hectar o dir amaethyddol cymwys yng Nghymru (gan gynnwys eich cyfran o dir comin), sydd wedi'i gofrestru gydag RPW.

  **neu**

  eich bod yn gallu dangos eich bod yn gwneud dros 550 o oriau o lafur safonol ar weithgareddau amaethyddol neu ategol.

- eich bod yn cynnal gweithgareddau amaethyddol neu ategol ar dir amaethyddol. Diffinnir amaethyddiaeth a gweithgareddau cysylltiedig yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru).

Mae gweithgareddau amaethyddol yn cynnwys;

- Cadw a bridio da byw. Defnyddio tir ar gyfer garddwriaeth, ffermio cnydau âr a ffermio llaeth.
- Defnyddio tir fel tir pori ac fel coetir ffermydd neu ar gyfer amaeth-goedwigaeth.
- Amaethyddiaeth mewn amgylchedd a reolir, tyfu planhigion i'w gwerthu neu werthu rhan o'r planhigyn fel cynhyrchu hadau.
- Cynnal tir mewn cyflwr sy'n ei wneud yn addas ar gyfer y gweithgarwch a restrir uchod.

Mae gweithgareddau ategol yn cynnwys:

- gweithgareddau ar dir sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth i greu a rheoli cynefin, neu at ddibenion eraill sy'n gysylltiedig â chadwraeth natur, lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo, neu gynnal ecosystemau a'u gwneud yn fwy gwydn
- Gwerthu, marchnata, paratoi, pecynnu, prosesu neu ddosbarthu cynhyrchion sy'n deillio o amaethyddiaeth.

Byddwn yn edrych a oes gennych hawliad cymwys o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) ym mlwyddyn gyfredol neu ddiweddaraf y cynllun i gadarnhau bod gennych 3 hectar o dir amaethyddol cymwys yng Nghymru a'ch bod yn cynnal gweithgareddau amaethyddol neu ategol.

Os nad ydych wedi cyflwyno hawliad BPS cymwys ym mlwyddyn gyfredol neu ddi-weddaraf y cynllun, rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth ddogfennol gyda'ch cais i gadarn-hau'r canlynol;

- eich bod yn cynnal gweithgareddau amaethyddol neu ategol pan fyddwch yn cyflwyno'r cais.
- naill ai bod gennych 3 hectar o dir amaethyddol cymwys wedi'i gofrestru gyda RPW neu dystiolaeth eich bod wedi gwneud 550 o oriau o lafur safonol yn ystod y 12 mis diwethaf.

Tystiolaeth ddogfennol dderbyniol ar gyfer 550 o oriau o lafur safonol yw:

Llythyr achrededig gan gyfrifydd, fydd yn cadarnhau bod y busnes wedi cwblhau mwy na 550 o oriau.

**neu**

• Dim ond os yw'n darparu lefel gyfatebol o sicrwydd y derbynnir tystiolaeth heblaw am lythyr gan gyfrifydd achrededig fel prawf. Mae hynny'n golygu y dylai fod wedi'i dilysu gan rywun achrededig annibynnol, fel cyfreithiwr, sy'n deall digon am y busnes i gadarnhau'r haeriad o 550 o oriau.

Os na fydd tystiolaeth ddogfennol wedi'i chyflwyno gyda'r cais, ni chaiff y cais fynd yn ei flaen ar gyfer y broses ddewis nes bod y dystiolaeth wedi dod i law, a gellir ei wrthod.

## Costau cymwys

Mae'r eitemau canlynol yn gymwys i gael cyllid grant:

1. To dros fannau bwydo da byw sy'n bod.
2. To dros fannau crynhoi da byw sy'n bod.
3. To dros storfeydd tail sy'n bod.

Mae manylion llawn a manyleb yr eitemau wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

**Rhaid** i'r eitemau fodloni'r fanyleb a ddisgrifir neu ragori arni.

Er mwyn i eitem fod yn gymwys, ni fyddai'r buddsoddiad yn digwydd oni bai am y grant.

Rhaid i'r tir lle byddwch yn gosod yr eitemau fod o dan eich rheolaeth lwyr chi.

## Mannau Anghymwys

- Mannau trin a bwydo da byw ag iddynt sylfaen o gerrig / pridd.
- Mannau lle mae'r llawr concrit wedi cracio a'i ddifrodi
- Mannau dros dro ar gyfer bwydo da byw.

- Iardiau cyffredinol lle nad oes slyri'n cael ei gynhyrchu.
- Toeon dros fannau dros dro ar gyfer trin da byw e.e. unedau symudol ar gyfer trin defaid / gwartheg.

## Costau anghymwys

Deunyddiau ail-law.

Toeon neu siediau da byw newydd yn lle hen rai.

Troi'r man y rhoddwyd cymorth Seilwaith Bach ar ei gyfer at ddiben arall e.e. sied da byw, storfa.

# Adran C: Cyfradd a throthwy uchaf y grant

Y gyllideb fras fydd yn cael ei dyrannu ar gyfer y categori hwn ym mlwyddyn galendr 2027/2028 yw £1m.

Y grant mwyaf y byddwn yn ei ddyfarnu bob blwyddyn ariannol yw **£15,000** fesul ymgeisydd neu ddeiliad cytundeb. Y grant lleiaf fydd **£3,000** fesul cais.

Diffinnir blwyddyn ariannol fel 1 Ebrill i 31 Mawrth.

Mae'r grant yn darparu cyfraniad safonol at y gost o **£40 y m2** .

Cewch wneud cais am fwy na'r grant mwyaf. Os dewisir eich cais, bydd eich grant yn cael ei gapio i'r uchafswm o £15,000.

Pwysig: Ni fydd unrhyw wariant sydd wedi'i gymeradwyo o dan yr hen gynllun Grantiau Bach – Gorchudd Buarth yn cyfrif tuag at uchafswm grant Seilwaith Bach.

Gallwch wneud mwy nag un cais a chael eich dewis fwy nag unwaith; fodd bynnag, dim ond hyd at 2 lythyr dyfarnu byw y gallwch eu cael ar unrhyw adeg. Ar ôl i chi gyflwyno un cais, gallwch wneud cais arall ar ôl i'r cais cyntaf gael ei ddewis a llythyr dyfarnu grant gael ei roi. Unwaith y bydd gennych ddau lythyr dyfarnu byw, ni fyddwch yn gallu gwneud cais arall nes i chi hawlio o leiaf un o'r grantiau.

Os ydych eisoes wedi cael grant ar gyfer Seilwaith Bach ac am gyflwyno cais arall ar gyfer yr un flwyddyn ariannol, bydd y swm sydd eisoes wedi'i ddyrannu i chi yn y flwyddyn ariannol honno yn cyfrif at werth yr uchafswm o £15,000. Dim ond am grant gwerth yr hyn sydd ar ôl y byddwch yn cael gwneud cais. Rhaid i'ch cais fodloni'r terfyn isaf o £3,000 o hyd.

Er enghraifft:

Y dyfarniad grant mwyaf sydd ar gael mewn blwyddyn ariannol yw £15,000. Os ydych eisoes wedi cael £10,000 o grant ar gyfer 2027/28, gallwch wneud cais am ragor. Ond ni fydd unrhyw geisiadau **ychwanegol** yn 2027/28 yn cael bod yn fwy na £5,000.

# Adran D: Caniatadau a Chymeradwyaethau

## Caniatâd Cynllunio

Os oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer eich buddsoddiad, ni chaiff unrhyw grant ei dalu nes bod dogfennau cymeradwyo cynllunio wedi'u cyflwyno a bod Llywodraeth Cymru wedi'u dilysu.

Os yw'r awdurdod cynllunio wedi penderfynu nad oes angen caniatâd cynllunio ar y prosiect, bydd angen tystiolaeth gan yr awdurdod cynllunio i gadarnhau hyn.

## Cymeradwyaeth Corff Cymeradwyo Systemau (SAB) Draenio Cynaliadwy (SuDS)

Os oes angen cymeradwyaeth SAB ar eich buddsoddiad, ni chaiff grant ei dalu nes bod dogfennau cymeradwyo'r SAB wedi'u cyflwyno a bod Llywodraeth Cymru wedi'u dilysu.

I gael trosolwg o'r hyn sydd angen cymeradwyaeth o'r fath, a chanllawiau manylach, ewch i wefan Llywodraeth Cymru yn: [Systemau draenio cynaliadwy (SuDS): canllawiau | LLYW.CYMRU]

Os yw'r SAB lleol yn penderfynu nad oes angen iddo gymeradwyo'r prosiect, bydd angen i chi ddangos tystiolaeth gan y SAB i gadarnhau hyn. Er bod cymeradwyaeth o'r fath yn wahanol i ganiatâd cynllunio, bydd y dystiolaeth a gyflwynir gennych yn cael ei hasesu gan y tîm gwerthuso mewn modd sy'n gyson â'i brosesau ar gyfer delio â chaniatâd cynllunio.

Er efallai nad oes angen caniatâd cynllunio awdurdod cynllunio lleol ar gais adeiladu (er enghraifft, datblygiadau a ganiateir sy'n llai na 100 metr sgwâr), mae'n bosibl y bydd angen cymeradwyaeth SAB arno os yw'n effeithio ar y system ddraenio. Felly, ni ddylid cymryd yn ganiataol am nad oes angen caniatâd cynllunio, nad oes angen cymeradwyaeth SAB.

## Cydsyniadau Eraill

Eich cyfrifoldeb chi yw cael pob caniatâd, cydsyniad a thrwydded arall lle bo angen. Rhaid i chi gydymffurfio hefyd â safonau gofynnol a gofynion deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r amgylchedd, hylendid, lles anifeiliaid a'r holl safonau iechyd a diogelwch perthnasol.

# Adran E: Y broses ymgeisio, dewis a dyfarnu grant

## RPW Ar-lein

Dim ond drwy fynd i RPW Ar-lein y gallwch gwblhau cais am Seilwaith Bach.

Cewch fwy o fanylion am RPW Ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru.

Os oes gennych asiant yn gweithio ar eich rhan, bydd angen iddo gofrestru fel asiant gydag RPW.  Mae manylion sut i wneud hyn ar wefan Llywodraeth Cymru.
Canllawiau RPW Ar-lein i asiantau ac undebau ffermio

## Dewis eitemau o Atodiad A

Mae Atodiad A yn rhestru'r holl eitemau cymwys y gallwch wneud cais amdanynt o dan y categori Seilwaith Bach.

## Cyn gwneud cais

Cyn gwneud cais, dylech ystyried yn ofalus pa mor gyflym rydych chi'n gallu cwblhau eitemau a chael yr holl gydsyniadau perthnasol yr hoffech eu cynnwys fel rhan o'ch cais. Os ydych chi'n teimlo na fyddwch yn gallu cynnal yr holl weithgareddau yn y flwyddyn ariannol gyfredol a bod blwyddyn ariannol yn y dyfodol ar gael i chi, dylech ddewis honno pan ofynnir i chi, cyn dechrau'r ffurflen.

## Y Diweddaraf am Barseli Tir

Rhaid bod gennych reolaeth lwyr ar y tir (yr iard) sydd wedi'i gynnwys yn eich cais. Rhaid i'r holl dir fod o dan eich rheolaeth lwyr a bydd wedi'i fapio'n gywir ar System Adnabod Parseli Tir (LPIS) RPW cyn i chi gyflwyno'ch cais.

Os oes angen i chi gofrestru tir am y tro cyntaf, rhoi gwybod i RPW am dir sydd wedi'i drosglwyddo i chi (naill ai tir sy'n eiddo i chi neu dir sydd ar rent i chi) neu wneud newidiadau i barseli tir sy'n rhan o'ch cais, fel newid ffiniau, rhannu/uno caeau neu ychwanegu, dileu neu newid nodweddion parhaol, bydd angen i chi gyflwyno Rheoli Fy Nhir drwy eich cyfrif RPW Ar-lein. Bydd angen i chi gyflwyno eich Rheoli fy Nhir mewn da bryd i sicrhau bod y tir wedi'i brosesu er mwyn allu cyflwyno'ch cais.

## Cyflwyno Cais

Mae'r cais ar gyfer Seilwaith Bach ar gael drwy RPW Ar-lein.

I weld y cyfarwyddiadau ar sut i wneud a chyflwyno cais drwy RPW Ar-lein, cliciwch ar y ddolen hon.

Mae angen ffotograffau â geotag gyda'r cais i gadarnhau bod y safle'n gymwys. Gweler rhagor o fanylion yn Atodiad B.

**Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y cais yn cael ei lenwi'n gywir a bod yr wybodaeth i gefnogi'ch cais yn gywir.**

Os na fydd eich cais yn gymwys, byddwn yn rhoi gwybod ichi trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am lenwi'ch cais, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004. Bydd yn gallu'ch helpu a'ch cynghori gan gynnwys rhoi helpu digidol os oes angen.

## Sgorio a Dewis

Mae pob eitem wedi'i sgorio ar sail y meini prawf canlynol ac fe welwch y sgôr a roddir ar gyfer pob Eitem yn Atodiad A:

• Defnyddio Adnoddau'n Effeithlon
• Defnyddio Technoleg yn Effeithlon
• Iechyd a Lles Anifeiliaid
• Iechyd a Diogelwch

Wrth gyfrif y sgôr, ystyriwch ble y byddwch yn gosod yr eitem yn yr ardal flaenoriaeth ansawdd dŵr a'r ardal flaenoriaeth swm dŵr a lleoliad yr eitem yn ardaloedd blaenoriaeth misglen berlog yr afon, gwyniad, problemau maetholion â thystiolaeth, SoDdGA biolegol (gan gynnwys llain glustogi 300m), afonydd sensitif a llynnoedd sensitif fel a ddisgrifir yn Atodiad C.

Bydd ymgeiswyr sydd wedi hawlio Haen Gyffredinol yr SFS bob amser yn cael blaenoriaeth dros y rhai nad ydynt wedi hawlio'r Haen Gyffredinol. Bydd pwysoliad ychwanegol i roi blaenoriaeth i'r ymgeiswyr hynny.

Bydd y system yn cyfrif eich sgôr yn awtomatig trwy gyfrif cyfartaledd y pwyntiau yn erbyn pob eitem unigol.

Mae'r map problemau maetholion â thystiolaeth i'w weld yn Atodiad D.

I weld y mapiau sy'n dangos lleoliad ansawdd y dŵr â blaenoriaeth, swm y dŵr â blaenoriaeth, misglen berlog yr afon a'r gwyniad, cliciwch yma: Map sgorio Glastir Uwch | LLYW.CYMRU

Pan fydd ceisiadau wedi cael yr un sgôr a'u bod o'r un gwerth ac yn mynd dros drothwy'r gyllideb sydd ar gael, mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i naill ai ddewis neu wrthod y ceisiadau hyn, gan ddibynnu ar y gyllideb sydd ar gael.

Mae'r tabl isod yn dangos pryd y bydd ceisiadau'n cael eu dewis a pha flynyddoedd ariannol fydd yn cael eu cynnwys yn y dewis (mae pob dewis yn amodol ar y gyllideb sydd ar gael).

| Dewis | Blwyddyn ariannol 2027/2028 |
|---|---|
| Ffurflen ar gael | 17/09/2026 |
| Dewis 1 | w/d 30/11/2026 |
| Dewis 2 | w/d 25/01/2027 |
| Dewis 3 | w/d 22/03/2027 |

Y dyddiad olaf y byddwch yn cael cyflwyno cais ar gyfer ei ddewis ar gyfer blwyddyn ariannol 2027/2028 yw 25/06/2027.

Ar ôl i'ch cais gael ei ddewis, cynhelir gwiriadau pellach i weld a yw'r lleoliad yn gymwys. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, rhoddir llythyr dyfarnu grant i chi. Os na fydd eich cais yn llwyddiannus, caiff ei wrthod.

Os na chaiff eich cais ei ddewis, rhown wybod ichi ar eich cyfrif RPW Ar-lein, a bydd eich cais yn cael ei ystyried fel rhan o'r dewis nesaf. Os nad ydych am i ni ystyried eich cais yn y dyfodol, gallwch dynnu'ch cais yn ôl.

Pwysig: Gallai gwerth y oedd grant ar gyfer eitemau newid ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2028/29. Ni fydd y newidiadau hyn yn cael effaith ar ddyfarniadau grant sydd eisoes wedi'u derbyn.

## Llythyr Dyfarnu Grant

Bydd y Dyfarniad Grant ar gyfer y prosiect yn para hyd at 12 mis.  Rhaid ichi gyflwyno'ch hawliad erbyn dyddiad diwethaf eich dyfarniad grant. Dyma'r dyddiad cau ar gyfer hawlio.

Rhaid ichi gadarnhau'ch bod yn derbyn neu'n gwrthod y grant sydd wedi'i ddyfarnu i chi o fewn 21 diwrnod calendr ar ôl dyddiad y cynnig drwy bwyso ar y botwm glas yn hafan RPW Ar-lein. Os byddwch yn derbyn y grant, bydd gofyn i chi hefyd gwblhau proffil talu bras i gadarnhau'r mis a'r flwyddyn pryd y byddwch am gyflwyno'ch hawliad.

Peidiwch â phrynu'r eitemau sydd yn eich cais nes eich bod wedi cael llythyr dyfarnu grant.

Os na fyddwch wedi cadarnhau'ch bod yn derbyn y grant o fewn 21 diwrnod calendr, bydd y cynnig yn cael ei dynnu'n ôl.

Caiff manylion llawn pryd y bydd yn rhaid ichi dderbyn y contract a phryd y bydd yn rhaid ichi gwblhau'r eitemau a'u hawlio eu nodi yn eich llythyr dyfarnu grant.

Byddwn yn rhoi nodyn atgoffa i chi trwy’ch cyfrif RPW Ar-lein cyn y dyddiad cau ar gyfer derbyn y cynnig.

Ni fyddwch yn cael newid eitemau neu leoliad eitemau, ar ôl i lythyr dyfarnu grant gael ei roi ichi.

# Adran F: Amodau'r Grant

Ar ôl i chi gadarnhau'ch bod yn derbyn y grant Seilwaith Bach, rydych yn ymrwymo i gytundeb gyda Llywodraeth Cymru ac felly'n rhywun sy'n **dal cytundeb** (*deiliad cytundeb)*at ddibenion Rheoliadau Cynlluniau Cymorth Amaethyddol (Cymhwysedd, Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2025.

Mae'r grant Seilwaith Bach yn dod o dan nifer o ddeddfau perthnasol. Rhaid i Lywodraeth Cymru a deiliad y cytundeb weithredu yn unol â'r deddfau hynny.

Mae'r grant yn cael ei gynnig yn unol â'r telerau a'r amodau a fydd yn cael eu nodi yn eich llythyr dyfarnu grant, gan gynnwys y telerau a'r amodau a nodir isod.

**Gallai peidio â bodloni telerau ac amodau'r dyfarniad grant arwain at ganslo'ch dyfarniad a/neu adennill yr arian sydd eisoes wedi'i dalu i chi, neu leihau'r grant y byddwn yn ei dalu ichi.**

## Amodau:

Gwneir y dyfarniad ar sail y datganiadau y byddwch chi neu'ch cynrychiolwyr wedi'u gwneud. **Mae'n drosedd gwneud datganiadau ffug neu gamarweiniol.**

Gellid erlyn person sy'n gwneud datganiad ffug neu na fydd wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am newid perthnasol i'r wybodaeth a roddwyd yn y cais hwn. Gallai datganiad ffug, anghywir neu anghyflawn neu beidio â rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw newid perthnasol i'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi i Lywodraeth Cymru arwain at derfynu'r contract a/neu adennill taliadau sydd wedi'u gwneud.

Efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ddiweddaru'r rheolau a'r amodau os bydd newidiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Rhaid ichi gytuno i gadw at unrhyw newidiadau ar ôl cael gwybod amdanynt gan Weinidogion Cymru.

Rydych yn cytuno i gydymffurfio â'r holl gyfreithiau neu reoliadau neu gyfarwyddebau domestig neu ryngwladol perthnasol.

Ni chewch newid y prosiect, gan gynnwys lleoliad y gweithgarwch, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw Llywodraeth Cymru.

Rhaid cadw eitemau a gwaith a ariennir drwy'r grant Seilwaith Bach a'u defnyddio at eu diben bwriedig am bum mlynedd o ddyddiad diwedd dyfarniad eich grant. Peidiwch â'u gwaredu, eu trosglwyddo, eu gwerthu na'u newid yn sylweddol heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw Llywodraeth Cymru.

Rhaid ichi ddarllen a deall y canllawiau perthnasol.

Mae'r manylion rydych wedi'u rhoi yn y ceisiadau ac unrhyw ddogfennau ategol, hyd eithaf eich gwybod a'ch cred, yn wir, yn gywir ac yn gyflawn.

Rydych yn cydnabod na fydd Llywodraeth Cymru nac unrhyw gynghorydd a benodir gan Lywodraeth Cymru yn atebol am unrhyw gyngor a roddir, gan gynnwys yn ddigyfyngiad unrhyw gyngor a roddir mewn perthynas â'r grant, ac mai chi sy'n llwyr atebol am yr holl benderfyniadau busnes a wneir.

Mae gofyn ichi gydymffurfio â'r rheolau ynghylch costau cymwys a nodir yn y Canllawiau.

Dylai buddsoddiadau gael eu cwblhau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni â Llywodraeth Cymru. Ni ddylech newid yr amserlen hon heb gytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw Llywodraeth Cymru.

Rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno drwy ddefnyddio ffurflen hawlio Grantiau RPW Ar-lein a rhaid cynnwys yr holl ddogfennau ategol sydd eu hangen o dan y cynllun.

Rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno yn unol â'r amserlen a nodir yn y llythyr dyfarnu grant. Ni chaniateir i chi newid yr amserlen y cytunwyd arni na gwerth eich hawliadau heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw Llywodraeth Cymru.

Bydd peidio â hawlio'r cyllid o fewn y Cyfnod pan y bydd ar gael yn golygu y bydd yn peidio â bod ar gael ichi.

Dim ond ar gyfer gwariant sydd wedi'i dalu y gellir rhoi'r grant, hynny yw, taliadau sydd wedi clirio o gyfrif banc.

Rhaid i chi ymrwymo i gael unrhyw ganiatâd a chydsyniad sydd eu hangen.

Rhaid i chi gadarnhau nad oes eitemau yn y cais yn eitemau rydych yn eu hawlio o dan yswiriant.

Rhaid ichi gadarnhau nad ydych wedi gwneud cais am unrhyw gyllid cyhoeddus arall. Os daw'n amlwg eich bod wedi derbyn cyllid cyhoeddus o ffynhonnell arall, gall hynny arwain at wrthod eich hawliad, adennill taliadau a'ch cosbi.

Rhaid cadw cofnodion yn ymwneud â'r cais a'r hawliad am y grant hwn, gan gynnwys pob anfoneb wreiddiol ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill, am o leiaf deng mlynedd ar ôl dyddiad gorffen y prosiect.

Rhaid ichi ymrwymo i fodloni unrhyw rwymedigaethau statudol megis Iechyd a Diogelwch; cyflogaeth; hylendid; rheoli a diogelu'r amgylchedd; iechyd a lles anifeiliaid neu gnydau sy'n gymwys yn ystod cyfnod y dyfarniad grant hwn.

Mae pob cydsyniad, trwydded a chaniatâd arall wedi'i roi yn ôl yr angen

Rhaid i chi ganiatáu i swyddogion, cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru neu eu hasiant awdurdodedig priodol, Archwilydd Cyffredinol Cymru neu eu cynrychiolwyr fynd ar eich tir ac archwilio'r tir ac unrhyw offer, cyfleusterau a'r holl gofnodion a gwybodaeth

berthnasol sydd eu hangen i gadarnhau’ch bod yn gymwys a bod y wybodaeth a roddwyd mewn cysylltiad â'r dyfarniad grant hwn yn gywir. Os gofynnir, rhaid i chi roi gwybodaeth iddynt a/neu adael iddynt weld y dogfennau gwreiddiol sy'n ymwneud â’r buddsoddiad.

Rhaid bod gennych yswiriant digonol ar gyfer y risgiau a allai godi mewn cysylltiad ag unrhyw eiddo neu unrhyw weithgaredd yr ymgymerir ag ef wrth gyflawni’r Dibenion. Rydym yn cadw’r hawl i ofyn ichi gyflwyno tystiolaeth o’ch yswiriant.

Mae'n bosibl y bydd angen i Lywodraeth Cymru rannu gwybodaeth am eich dyfarniad grant â sefydliadau eraill, ac rydych yn cytuno i ni ddatgelu neu rannu unrhyw wybodaeth yn ôl yr angen.

Gallai Llywodraeth Cymru ofyn hefyd am wybodaeth amdanoch oddi wrth sefydliadau eraill, neu roi gwybodaeth amdanoch iddyn nhw er mwyn cadarnhau cywirdeb yr wybodaeth, er mwyn atal neu ganfod troseddau, ac er mwyn diogelu arian cyhoeddus. Mae'r sefydliadau eraill hynny'n cynnwys adrannau'r llywodraeth, awdurdodau lleol a chyrff eraill, yn ôl y gofyn.

Rwy'n deall y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ac yn datgelu gwybodaeth yn unol â’r ymrwymiadau a’r dyletswyddau sydd arni o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Rheoliadau Cynlluniau Cymorth Amaethyddol (Cymhwysedd, Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2025. Caiff gwybodaeth arall a roddir ei datgelu hefyd os caniateir hynny o dan y gyfraith.

Mae’r wybodaeth a ddarperir yn y cais yn dod o dan yr Hysbysiad Preifatrwydd. Mae’r Hysbysiad Preifatrwydd yn esbonio sut y mae Llywodraeth Cymru’n prosesu ac yn defnyddio’ch data personol a’ch hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU).

# Adran G: Amgylchiadau'n Newid

Yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli, rhaid i chi roi gwybod i RPW cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, am unrhyw newid yn eich amgylchiadau y gellid disgwyl yn rhesymol iddo effeithio ar eich gallu i fodloni'r meini prawf a/neu amodau'r grant. Dylech wneud hyn o fewn 60 diwrnod ar ôl i'r newid perthnasol yn eich amgylchiadau ddigwydd.

Pan fyddwch wedi rhoi gwybod i ni, gallwn gymryd un neu fwy o'r camau canlynol:

(a) newid, dileu neu ddisodli amod, am gyfnod dros dro neu’n barhaol.
(b) newid, dileu neu ddisodli unrhyw ofynion neu amserlenni naill ai dros dro neu'n barhaol
(c) gosod sancsiynau a/neu leihau taliadau
(d) ei gwneud yn ofynnol i chi ad-dalu rhai neu'r holl daliadau blaenorol a wnaed.

Bydd Llywodraeth Cymru yn barod i dderbyn y gallai cyfres o ddigwyddiadau sy'n gyfystyr ag Amgylchiadau Eithriadol eich rhwystro rhag cadw at ymrwymiadau penodol. Ceir mwy o fanylion yn Adran I.

# Adran H: Tynnu cais yn ôl neu dynnu eitemau

## Tynnu'r cais yn ôl

Ar ôl i chi gyflwyno cais ar gyfer Seilwaith Bach, gallwch dynnu'ch cais yn ôl ar unrhyw adeg cyn i chi gael cynnig llythyr dyfarnu grant. Gallwch wneud hynny yn 'Fy Negeseuon' ar eich cyfrif RPW Ar-lein.

Os ydych wedi dewis yr eitem anghywir neu'n newid eich meddwl am yr eitem rydych wedi'i dewis neu os na sylwoch chi bod yr eitem roeddech am ei chael ar y rhestr, yna gallwch dynnu'r cais yn ôl a gwneud cais arall.

## Tynnu dyfarniad grant yn ôl

Os ydych yn derbyn dyfarniad grant ac am dynnu'ch dyfarniad grant yn ôl, rhaid i chi roi gwybod i RPW ar eich cyfrif RPW Ar-lein **o leiaf 60 diwrnod cyn dyddiad diwedd eich dyfarniad grant.**

Os na fyddwch wedi rhoi gwybod i RPW eich bod am i'ch dyfarniad grant gael ei dynnu'n ôl ac **nad ydych wedyn yn hawlio taliad**, byddwch yn cael eich gwahardd rhag gwneud cais arall am y categori Seilwaith Bach am gyfnod o 1 flwyddyn o'r dyddiad cau ar gyfer hawlio.

## Tynnu eitemau

Os ydych am dynnu eitemau o'ch dyfarniad grant, rhaid i chi roi gwybod i RPW ar eich cyfrif RPW Ar-lein **o leiaf 60 diwrnod cyn dyddiad diwedd eich dyfarniad grant.**

Os na fyddwch wedi rhoi gwybod i RPW eich bod am dynnu eitemau ac **nad ydych wedyn yn hawlio'r holl eitemau** sydd wedi'u cynnwys yn eich dyfarniad grant, efallai y cewch eich cosbi (gweler adran I).

# Adran I: Taliadau

## Hawliadau

Bydd yn rhaid ichi hawlio'r grant Seilwaith Bach trwy'ch cyfrif RPW ar-lein;

Chewch chi ddim mo'ch talu nes bod eich hawliad wedi cael ei ddilysu'n llwyddiannus. Dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y gwariant perthnasol wedi'i wneud a bod y gwaith wedi'i gwblhau y bydd hawliadau'n cael eu talu.

Bydd taliadau'n cael eu talu i chi drwy drosglwyddiad electronig i'ch cyfrif banc.

Er mwyn cael eich talu, byddwch:

- wedi cadarnhau'ch bod yn derbyn y dyfarniad grant o fewn 21 niwrnod calendr ar ôl dyddiad ei gynnig a rhaid cadw at yr holl ofynion.

- yn sicrhau eich bod dim ond yn prynu y deunyddiau neu'n dechrau gweithio ar yr eitemau a restrir yn eich Llythyr Dyfarnu Grant nes y caiff grant ei gynnig ichi.

- yn gwneud yn siŵr eich bod wedi cwblhau'r **holl** eitemau a restrir yn eich llythyr dyfarnu grant (gweler Adran H am Dynnu'n ôl a thynnu eitemau).

- Cyflwynwch yr hawliad a'r dogfennau ategol ar eich cyfrif RPW Online, yn unol â'r dyddiadau a nodir yn y proffil talu bras .

Byddwn yn barod i dderbyn hawliadau a/neu ddogfennau ategol hwyr hyd at 10 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad cau ar gyfer hawlio. Bydd yna gosbau am hawlio'n hwyr fel hyn (gweler y Cosbau isod).

**Nid oes cyfnod hawlio hwyr ar gyfer prynu a thalu am yr eitemau sydd wedi'u rhestru yn eich llythyr dyfarnu grant. Rhaid ichi gwblhau'r holl eitemau a thalu amdanyn nhw, erbyn dyddiad gorffen dyfarniad y grant (y dyddiad cau ar gyfer hawlio).**

Byddwn yn anfon hyd at 2 nodyn i'ch atgoffa bod hawliadau heb eu gwneud trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein cyn y dyddiad cau ar gyfer hawlio.

## Dogfennau Ategol

**Rhaid** i chi gyflwyno'r canlynol gyda'ch hawliad:

• Anfonebau ar gyfer yr holl eitemau rydych yn eu hawlio, sy'n nodi'n glir arwynebedd y to gafodd ei adeiladu.

• Tystiolaeth eich bod wedi talu am bob eitem yn yr hawliad.

• Ffotograffau â geotag o'r to ar ôl cwblhau'r buddsoddiad (Gweler Atodiad B am ragor o fanylion)

• Dogfennau caniatâd cynllunio neu brawf nad oes angen caniatâd cynllunio.

• Cymeradwyaeth gan SAB neu gadarnhad nad oes ei angen. Mae angen nodi'n glir pob eitem unigol a'i chost ar yr anfoneb.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr eitemau a brynwyd yn bodloni neu'n rhagori ar y fanyleb yn Atodiad A a rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth ddogfennol sy'n cadarnhau hyn.

Os oes gennych unrhyw amheuon ynghylch unrhyw beth am eich grant, mae'n hanfodol eich bod yn gofyn am gadarnhad ysgrifenedig eich bod yn gymwys amdano cyn ysgwyddo’r costau.

**Rhaid** i chi gyflwyno cyfriflenni banc fel tystiolaeth bod gwariant wedi’i wneud ar gyfer pob eitem yn eich llythyr dyfarnu grant.

Gallwch gyflwyno’r anfonebau a’r cyfriflenni banc drwy eu sganio a’u hanfon drwy ‘Fy Negeseuon’ yn eich cyfrif RPW Ar-lein.

## Dyfarniadau Grant heb eu Cwblhau

Os ydych wedi cael gwybod gan eich cyflenwr neu gontractwr na all gyflenwi neu godi'r to cyn y dyddiad cau ar gyfer hawlio, **rhaid** rhoi gwybod i RPW drwy'ch cyfrif RPW Ar-lein. Dylech ddangos prawf eich bod wedi'i archebu o fewn amserlen resymol a thystiolaeth ddogfennol gan y cyflenwr neu'r contractwr i gadarnhau nad yw'n gallu cyflenwi neu osod yr eitem.

Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau.

**Sylwer, bydd cais i dynnu eitem pan fyddwch yn cyflwyno hawliad yn arwain at gosbau.**

## Cosbau

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr hawliad a gyflwynir yn gymwys ac yn gywir ac wedi'i gyflwyno gyda'r dogfennau ategol.

Bydd eich hawliad yn anghywir a byddwch yn cael eich cosbi os:

- na fyddwch wedi cyflwyno hawliad a dogfennau ategol erbyn y dyddiad cau ar gyfer hawlio a nodir yn eich llythyr dyfarnu grant.
- byddwch yn cyflwyno'ch hawliad a/neu ddogfennau ategol ar ôl y dyddiad cau ar gyfer hawlio a nodir yn eich llythyr dyfarnu grant.
- ydych wedi prynu deunyddiau neu wedi dechrau gweithio ar eitemau cyn i'r dyfarniad grant gael ei gynnig.

- nad ydych wedi cwblhau'r holl eitemau a restrir yn y llythyr dyfarnu grant ac nad ydych wedi gofyn am gael tynnu eitemau.
- yw unrhyw un o'r eitemau a hawlir wedi'u rhestru o dan 'Costau Anghymwys' yn adran B.
- ydych wedi cwblhau eitemau nad ydynt yn bodloni'r fanyleb ofynnol a nodir yn y Atodiad A.
- nad ydych wedi talu'n llawn am yr eitemau.
- nad yw pob un o'r eitemau a hawlir ar y safle pan fyddwn yn ymweld â'ch safle.

## Y Gosb am Hawlio'n Hwyr

Os yw'ch hawliad a/neu ddogfennau ategol yn ein cyrraedd o fewn y cyfnod hawlio hwyr, bydd cosb hawliad hwyr o 1% am bob diwrnod gwaith yn cael ei rhoi ar eich taliad.

Bydd unrhyw hawliadau a/neu ddogfennau ategol a fydd yn cyrraedd ar ôl y cyfnod hawlio hwyr yn cael eu gwrthod.

## Cosb am eitem(au) heb eu hawlio a/neu anghymwys

Os na fyddwch wedi hawlio ar yr holl eitemau sydd wedi'u cynnwys yn eich llythyr dyfarnu grant, bydd y taliad yn cael ei leihau i gyfateb i'r eitemau sydd wedi'u hawlio.

Os gwelir bod gwerth yr eitemau sydd heb eu hawlio yn fwy na 10% o gostau cymwys y grant, tynnir swm sy'n cyfateb i hanner gwerth yr eitemau sydd heb eu hawlio o'ch taliad.

Os bydd hawliad yn cynnwys eitem(au) nad ydynt yn bodloni'r fanyleb, eitemau sydd wedi'u prynu cyn i chi gael y llythyr dyfarnu grant, eitemau nad ydych wedi talu'n llawn amdanyn nhw neu nad ydyn nhw ar y safle pan fyddwch yn hawlio neu yn ystod archwiliad, bydd taliadau'n cael eu lleihau i swm yr eitemau sy'n gymwys.

Os gwelir bod gwerth yr eitemau anghymwys yn fwy na 10% o gostau cymwys y grant, tynnir swm sy'n cyfateb i hanner gwerth yr eitemau anghymwys o'ch taliad.

Os bydd eich hawliad yn cynnwys eitemau heb eu hawlio ac eitemau anghymwys, bydd eu gwerth yn cael ei adio at ei gilydd i gyfri'r gostyngiad yn y taliad ac i weld a fydd cosb.

**Er enghraifft:**

Mae gan ddeiliad cytundeb yr eitemau canlynol yn ei Lythyr Dyfarnu Grant sy'n werth grant o £11,840.

| Eitem Seilwaith Bach | Nifer | Gwerth y Grant |
|---|---|---|
| Gosod to dros fannau bwydo da byw. | 250 m sg | £10,000 |
| Gosod to dros fannau crynhoi da byw. | 20 m sg | £800 |
| To dros storfa dail. | 26 m sg | £1,040 |
| **Cyfanswm** | | **£11,840** |

Nid yw'r to dros y storfa dail, gwerth £1,040, yn cael ei hawlio. Y cyfanswm sy'n cael ei hawlio yw £10,800 (o'r grant o £11,840).

Gan fod y gwahaniaeth rhwng y swm a hawliwyd a chyfanswm gwerth y grant yn llai na 10%, cyfanswm y taliad sy'n ddyledus yw £10,800.

Fodd bynnag, os na hawlir y to dros y storfa dail, gwerth £1,040 ac ystyrir bod y to dros y man crynhoi da byw, gwerth £800, hefyd yn anghymwys, gwerth yr hawliad cymwys yw £10,000. Gan fod y gwahaniaeth rhwng yr hawliad cymwys a'r dyfarniad grant yn fwy na 10%, tynnir swm sy'n cyfateb i hanner yr eitemau anghymwys/heb eu hawlio o'r hawliad.

Felly, cyfanswm y taliad sy'n ddyledus yw £9,065 (gwerth yr hawliad cymwys £10,000 minws £935 (50% o £1,840).

## Gwahardd

Os na fyddwch wedi hawlio unrhyw un o'r eitemau sydd wedi'u cynnwys eich llythyr dyfarnu grant, efallai y cewch eich gwahardd rhag cyflwyno rhagor o geisiadau am y categori Seilwaith Bach am 12 mis o'r dyddiad cau ar gyfer hawlio a dyddiad diwethaf dyfarnu grant.

## Camgymeriadau amlwg

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig darpariaeth Camgymeriad Amlwg yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli'r cymorth. Bydd yn seiliedig ar asesiad cyffredinol o'r achos penodol, cyn belled â bod yr ymgeisydd neu ddeiliad y cytundeb wedi gweithredu gyda phob bwriad da.

Fel rheol gyffredinol, i gamgymeriad fod yn amlwg, byddwn wedi gallu ei ddarganfod gan ddefnyddio'r dogfennau a'r wybodaeth yr oeddech wedi'u cyflwyno i RPW fel rhan o'r cais neu wrth hawlio taliadau neu i'w cefnogi, gan gynnwys dogfennau ategol a hysbysiadau perthnasol, a hefyd trwy archwiliadau manwl o'r wybodaeth berthnasol arall a gedwir gan Lywodraeth Cymru. Mewn achosion o'r fath, gellir

cywiro a / neu addasu'r cais am gymorth neu daliadau ar unrhyw adeg ar ôl ei gyflwyno.

## Amgylchiadau eithriadol

Amgylchiadau Eithriadol yw amgylchiadau anarferol sydd y tu allan i reolaeth yr ymgeisydd neu ddeiliad y cytundeb, a oedd yn annisgwyl ac nad oedd modd eu hosgoi er gwaethaf pob gofal heb aberth ormodol ar ei ran. Mae enghreifftiau y gellir eu cydnabod yn cynnwys:

- Digwyddiadau naturiol, fel cyfnod hir o dywydd drwg, llifogydd neu glefyd ar anifail neu blanhigyn.
- Salwch neu anaf difrifol neu farwolaeth sy'n effeithio ar y busnes.
- Colli rheolaeth ar y busnes mewn ffordd na ellid fod wedi'i ragweld er enghraifft bod tenantiaeth yn cael ei derfynu neu oherwydd gorchymyn prynu gorfodol.
- Amgylchiadau ariannol fel methdalaeth.
- Problemau yn y gadwyn gyflenwi, gyda thystiolaeth.
- Difrod troseddol gan drydydd parti, fel tân troseddol neu fandaliaeth.

Er mwyn i Lywodraeth Cymru ystyried a derbyn bod digwyddiad yn Amgylchiad Eithriadol, rhaid i fanylion ysgrifenedig ddod i'n llaw, o fewn 60 diwrnod ar ôl i'r ymgeisydd neu ddeiliad y cytundeb, neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran, allu gwneud hynny.

Gall digwyddiad effeithio'n uniongyrchol ar un aelod yn unig o sefydliad neu fusnes fferm, fodd bynnag, dylid esbonio sut gwnaeth y digwyddiad effeithio ar allu pawb yn y busnes neu'r sefydliad yn ei gyfanrwydd i gyflawni eu rhwymedigaethau. Gellir gofyn am dystiolaeth ddogfennol ychwanegol a dylid ei darparu yn ôl y gofyn.

Mae'r ddarpariaeth Amgylchiadau Eithriadol ar gael mewn perthynas â'r canlynol:

- Cyflwyno cais neu hawliad yn hwyr.
- Cyflwyno dogfennau ategol yn hwyr mewn perthynas â chais neu hawliad.
- Yr hawl am daliad mewn perthynas â thir cymwys gafodd ei ddatgan ar gais neu hawliad ond nad yw bellach ar gael i'r ymgeisydd neu ddeiliad y cytundeb oherwydd digwyddiad Amgylchiadau Eithriadol.
- Yr anallu i gydymffurfio â gofynion y cynllun gan gynnwys amodau bod yn gymwys.
- Cosbau a osodir ar hawliadau. Y gofyn i ad-dalu'n rhannol neu'n llawn y taliadau a dderbyniwyd.

Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau.

## Troseddau

Mae rheoliad 19 o Reoliadau Cynlluniau Cymorth Amaethyddol (Cymhwysedd, Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2025 yn sefydlu troseddau mewn perthynas ag agweddau penodol ar y cymorth ariannol a ddarperir o dan y rheoliadau hynny. Mae’r rheoliad hwnnw a’r troseddau hynny yn berthnasol i Seilwaith Bach. Mae enghreifftiau o droseddau yn cynnwys rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol ar unrhyw adeg, methu â darparu gwybodaeth, tystiolaeth neu gopïau o gofnodion pan ofynnir amdanynt ac atal neu rwystro archwiliad, gan gynnwys methu â darparu cymorth rhesymol wrth i archwiliad gael ei gynnal.

Pan fyddwn yn barnu eich bod wedi cyflawni trosedd yn unol â'r rheoliadau, gellir tynnu eich grant cyfan yn ôl neu ran ohono.

## Ymddygiad annerbyniol

Ni ddylai swyddogion Llywodraeth Cymru nac unigolion neu sefydliadau sy’n gwneud dyletswyddau ar ran Llywodraeth Cymru ddioddef ymddygiad ymosodol, difrïol na sarhaus na gofynion afresymol a di-baid gan ymgeisydd neu ddeiliad cytundeb neu ei gynrychiolwyr.  Ni ddylai aelodau’r Panel Apelio Annibynnol ddioddef ymddygiad o'r fath chwaith.

Mae'r ddogfen Rheoli Ymddygiad Annerbyniol Cwsmeriaid gan Lywodraeth Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru sy'n esbonio beth yw ymddygiad annerbyniol yn ein barn ni.

**Gall ymddygiad annerbyniol arwain at dynnu taliadau yn ôl a/neu wrthod cais neu hawliad.**

## Talu Taliadau yn ôl

Os gwelir bod taliad anghywir wedi'i wneud, gellir gofyn ichi dalu'r arian hwnnw neu ran ohono, yn ôl.

Os bydd angen ichi ad-dalu arian, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig i chi am y ddyled. Os na fyddwch wedi talu'r ddyled, caiff y swm llawn ei dynnu'n awtomatig o'r taliadau cymorth amaethyddol cyntaf ddaw'n ddyledus i chi yn y dyfodol neu unrhyw gymorth eraill a sefydlwyd o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

# Adran J: Archwiliadau

Gall dilysu amodau dyfarnu grant gan Lywodraeth Cymru gynnwys ymweld â safleoedd sampl o ddeiliaid cytundeb i sicrhau bod yr eitemau ar y safle ac yn eu lle, lle bo hynny'n briodol.

Rhaid i chi ganiatáu i swyddogion Llywodraeth Cymru, neu eu cynrychiolwyr, archwilio’r eitemau o fewn 5 mlynedd ar ôl dyddiad diwedd y dyfarniad grant.

Os byddwch yn gwrthod caniatáu ymweliad neu'n rhwystro swyddog neu ddim yn rhoi cymorth rhesymol, gall Llywodraeth Cymru ofyn ichi ad-dalu taliadau blaenorol.

# Adran K: Cadw Cofnodion

Mae’n rhaid i chi gadw am 10 mlynedd o ddyddiad taliad olaf y grant, yr holl gofnodion a gwybodaeth sydd eu hangen i ddangos eich bod wedi darparu gwybodaeth gyflawn a chywir a’ch bod wedi cydymffurfio â’ch ymrwymiadau.

Bydd gofyn ichi hefyd:

- Ddarparu unrhyw wybodaeth am eich grant Seilwaith Bach o fewn cyfnod a bennir gan Lywodraeth Cymru.
- Gofalu bod cofnodion, cyfrifon, derbynebau a gwybodaeth arall, gan gynnwys data ar gyfrifiadur, am eich Grant Seilwaith Bach ar gael i Lywodraeth Cymru, ei swyddogion awdurdodedig a’i hasiantwyr eu gweld. Bydd gofyn ichi ganiatáu i Lywodraeth Cymru gymryd unrhyw ddogfen neu gofnod i wneud copïau neu i godi darnau ohoni/ohono.

# Adran L - Newidiadau i Ddeddfwriaeth a'r Rheolau

## Newidiadau i’r Ddeddfwriaeth (gan gynnwys Dehongliadau Newydd)

Mae rheolau Seilwaith Bach yn seiliedig ar Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 a Rheoliadau Cynlluniau Cymorth Amaethyddol (Cymhwysedd, Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2025.

Caiff deddfwriaeth ei newid o dro i dro a bydd gofyn i chi gydymffurfio ag unrhyw newidiadau i reolau'r categorïau ar ôl i Lywodraeth Cymru roi gwybod ichi amdanynt.

## Newidiadau i'r Rheolau neu ddyfarniad y grant

Mae’n bosibl y bydd angen i ni newid rheolau’r grant a/neu eich llythyr dyfarnu grant am nifer o resymau. Er enghraifft, efallai y bydd angen i ni ddiweddaru’r amodau rheoli ar sail y cyngor gwyddonol diweddaraf, neu newid rheolau’r grant oherwydd newidiadau i'r ddeddf. Byddwn yn cyhoeddi newidiadau ar wefan Llywodraeth Cymru ac yn cysylltu â chi’n uniongyrchol os oes angen.

# Adran M: Y Drefn Apelio a Chwyno

## Y drefn apelio

Mae'r 'Broses Apelio Annibynnol ar gyfer Grantiau a Thaliadau Gwledig' yn rhoi caniatâd ichi ofyn am adolygiad os ydych yn teimlo nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniad cywir yn unol â'r rheolau a'r canllawiau, ar ôl ichi gadarnhau'ch bod yn derbyn y dyfarniad grant. **Nid oes sail dros apelio yn y cam ymgeisio.**

Mae dwy ran i'r broses apelio:

- Cam 1: adolygiad gan swyddogion Llywodraeth Cymru
- Cam 2: adolygiad gan Banel Apelio Annibynnol (os ydych yn anfodlon â'r ymateb yng Ngham 1).

Mae'r Panel Apelio Annibynnol yn gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru, sy'n gwneud y penderfyniad terfynol, gan ddod â'r broses i ben.

Rhaid i apêl, gan gynnwys y dystiolaeth, ddod i'n llaw trwy RPW Ar-lein o fewn 60 diwrnod ar ôl dyddiad y llythyr sy'n disgrifio'r penderfyniad rydych am apelio yn ei erbyn.

Rhaid i apelwyr a'u cynrychiolwyr beidio â chysylltu'n uniongyrchol ag aelodau'r Panel Apelio Annibynnol. Efallai y gallwn ystyried bod hyn yn Ymddygiad Annerbyniol yn ôl y canllawiau ar Rheoli Ymddygiad Annerbyniol Cwsmeriaid Llywodraeth Cymru. **Gall ymddygiad annerbyniol arwain at dynnu taliadau yn ôl a/neu wrthod cais, hawliad neu apêl.**

Mae rhagor o wybodaeth am y broses apelio a sut i gyflwyno apêl trwy ddefnyddio'r ffurflen gais ar-lein ar gael gan y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid neu ein gwefan: Apeliadau Grantiau a Thaliadau Gwledig:Canllaw.

## Y drefn gwyno

Ymdrinnir â chwynion o dan drefn Llywodraeth Cymru ar gwynion. Cewch ragor o wybodaeth am sut i wneud cwyn gan y Tîm Cynghori ar Gwynion:

Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 03000 251378
E-bost: cwynion@llyw.cymru
Gwefan: Cwynion am Lywodraeth Cymru

Gallwch hefyd ddewis cysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:

1 Ffordd yr Hen Gae

Pen-coed
CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203
Gwefan: Ombwdsmon

# Adran N: Monitro a Gwerthuso

## Beth yw monitro a gwerthuso?

Mae monitro yn golygu casglu data, wrth ac ar ôl cynnal y cynllun, i helpu i wneud penderfyniadau gwell yn awr ac yn y dyfodol. Gweler hefyd 'The Green Book:

Mae cysylltiad agos rhwng monitro a gwerthuso. Bydd gwerthusiad cyffredin yn dibynnu'n drwm ar ddata monitro.

Mae gwerthuso yn golygu asesu dyluniad, gweithrediad a chanlyniadau'r cynllun. Mae'n cynnwys deall sut mae'r cynllun cymorth yn cael neu wedi cael ei weithredu a beth yw ei effeithiau, i bwy a pham.

Mae gwerthuso yn golygu hefyd nodi'r hyn y gellir ei wella a sut, a hefyd amcangyfrif ei gost-effeithiolrwydd ac effaith y polisi.

Ni all data monitro ar ei ben ei hun ateb pob cwestiwn gwerthuso. Bydd gwerthuso felly yn defnyddio cymysgedd o ddulliau meintiol ac ansoddol yn unol â'r Llyfr Magenta.

## Pam mae angen monitro a gwerthuso?

Mae monitro a gwerthuso yn ffordd bwysig o weld y gwersi y gellir eu dysgu er mwyn dylunio a darparu cymorth yn well yn y dyfodol.

## Gofynion Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

O dan y Ddeddf, mae dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i fonitro a gwerthuso cyfraniad unrhyw gymorth a roddir gan Lywodraeth Cymru at gyflawni amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) ac i adrodd ar hynny.

Mae monitro yn hanfodol i Lywodraeth Cymru allu bod yn atebol trwy fesur ei pherfformiad ar sail amcanion SLM a dibenion y cymorth. Mae adroddiadau yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar y Senedd a'r cyhoedd i allu cadw golwg ar hynt y cynllun a'r hyn sy'n cael ei wneud trwyddo.

Mae'r Ddeddf yn pennu fframwaith monitro ac adrodd clir ar lefelau amcanion SLM a'r cynllun cymorth. Mae'n cynnwys pum lefel adrodd:

- **Y Cynllun Cymorth Amlflwydd**, sef rhag-gynllun pum mlynedd sy'n nodi sut mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu rhoi cymorth yn ystod cyfnod y cynllun i

gyfrannu at gyflawni amcanion SLM. Cyhoeddwyd y **Cynllun Cymorth Aml-flwydd** cyntaf ym mis Rhagfyr 2024

Mae'r datganiad **dangosyddion a thargedau SLM** yn nodi sut y bydd Gweinidogion Cymru yn mesur cynnydd tuag at gyflawni'r pedwar amcan SLM. Cyhoeddwyd y dangosyddion a'r targedau SLM ym mis Rhagfyr 2025.

- Mae'r **Adroddiad Blynyddol** yn disgrifio'r cymorth ariannol ac anariannol a ddarperir o dan Adran 8 o'r Ddeddf yn ystod pob blwyddyn ariannol. Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi hefyd fanylion y cymorth a ddarperir o dan bwerau eraill. Cafodd yr adroddiad cyntaf ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2026.

- Bydd Llywodraeth Cymru yn paratoi **Adroddiad Effaith** bob pum mlynedd a fydd yn gwerthuso'r holl gymorth fydd wedi'i ddarparu. Bydd yn cynnwys asesiad o'i effaith ac o effeithiolrwydd y cymorth o ran cyflawni'r dibenion y darperir y cymorth ar eu cyfer, a'i gyfraniad at gyflawni'r amcanion. Bydd yr adroddiad effaith cyntaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2030, gan gwmpasu'r cyfnod hyd at ddiwedd Rhagfyr 2029.

- Bydd **Adroddiad Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM)** yn cael ei gyhoeddi bob pum mlynedd i asesu effeithiolrwydd y camau a gymerir gan Weinidogion Cymru yn unol â'u dyletswydd i gyflawni amcanion SLM. Bydd yn asesu cynnydd cronnus o ran cyflawni amcanion SLM (ers i'r ddyletswydd SLM ddod i rym) yn ogystal â'r cynnydd dros gyfnod yr adroddiad. Rhaid iddo hefyd asesu'r cynnydd ar sail dangosyddion a thargedau SLM ac esbonio a yw pob targed wedi cael ei gyflawni. Bydd yr adroddiad SLM cyntaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2026, gan gwmpasu'r cyfnod hyd at ddiwedd Rhagfyr 2025.

## Rheoliadau Cynlluniau Cymorth Amaethyddol (Cymhwysedd, Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2025 Rhif 1308 (Cy219)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chynlluniau cymorth y mae Gweinidogion Cymru yn darparu cymorth oddi tanynt. Mae rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n cael cymorth o dan gynllun cymorth ddarparu gwybodaeth neu dystiolaeth i Weinidogion Cymru y gall fod ei hangen er mwyn, er enghraifft, wirio bod deiliad y cytundeb yn parhau i fodloni'r meini prawf cymhwysedd a sicrhau cydymffurfedd ag amodau'r cynllun:

Rheoliad 8. Rhaid i ddeiliad cytundeb ddarparu, yn y modd hwnnw ac ar yr adegau hynny a bennir gan Weinidogion Cymru, yr wybodaeth honno neu'r dystiolaeth honno sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru i—

(a) gwirio a yw deiliad y cytundeb yn parhau i fodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cael cymorth,
(b) gwirhau cydymffurfedd â'r amodau y darperir cymorth yn ddarostyngedig iddynt,
(c) monitro i ba raddau y mae diben y cynllun cymorth wedi ei gyflawni, neu y bydd yn cael ei gyflawni, a
(d) adolygu neu werthuso—
  (i) unrhyw un neu ragor o'r gweithgareddau a gynhelir gan ddeiliad y cytundeb o dan y cynllun cymorth, a
  (ii) llwyddiant y cynllun cymorth yn ei gyfanrwydd.

Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng monitro'r cymorth a ddarperir o dan gynllun a sefydlwyd yn unol ag adran 8 o'r Ddeddf a'r fframwaith adrodd a gynhwysir yn y Ddeddf. Er mwyn bodloni'r gofynion adrodd, caiff yr holl gymorth a roddir ei fonitro i fesur effaith ac effeithiolrwydd y cymorth hwnnw, yn ogystal â sicrhau rheolaeth ariannol briodol ac effeithiol.

Bydd tystiolaeth a gyflwynir gan ymgeiswyr / deiliaid cytundebau yn cael ei defnyddio i fonitro effaith y cynlluniau cymorth ar draws y sector amaethyddol yng Nghymru, gan gynnwys asesu cyfraniad camau gweithredu â chymorth tuag at amcanion SLM. Gall hyn gynnwys data a gesglir trwy arolygiadau a datganiadau neu wrth weinyddu cynlluniau a bydd gofyn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data a hysbysiadau preifatrwydd cynlluniau.

## Gwerthuso

Yr SFS fydd prif gyfrwng, ond nid unig gyfrwng Llywodraeth Cymru, i gyflawni amcanion SLM. Bydd gwybodaeth a gesglir i fonitro amcanion SLM hefyd yn asesu effeithiolrwydd a gwerth am arian y cynllun. Er mwyn helpu i werthuso, efallai y byddwn yn gofyn i'r rheini sydd ar y cynllun gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil. Bydd y wybodaeth a'r adborth a gesglir drwy'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu at ddatblygu'r cynllun yn y dyfodol, a helpu i sicrhau ei fod yn parhau'n effeithiol, yn ymatebol ac yn fuddiol i'r diwydiant amaeth yng Nghymru.

Bydd strategaeth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu asesu sut y bydd amcanion SLM a chynlluniau gan gynnwys yr SFS yn cael eu hasesu o ran gwerth am arian a'u canlyniadau i Gymru, gan gynnwys canlyniadau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Bydd y strategaeth yn cydnabod natur hirdymor y canlyniadau a geisir ac yn nodi mesurau interim a all ddangos cynnydd ar sail data perfformiad a rheoli gan Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a darparwyr gwasanaethau eraill, ynghyd â thystiolaeth berthnasol arall os yw'n gymwys.

## Beth mae hyn yn ei olygu i chi a’ch data:

Gallai Llywodraeth Cymru rannu’r wybodaeth rydych wedi’i rhoi iddi mewn cysylltiad â’ch hawliad (gan gynnwys eich data personol) â chontractwyr trydydd parti er mwyn monitro a gwerthuso’r cynllun.

O ganlyniad, efallai y byddwn yn cysylltu â chi i ofyn ichi gymryd rhan mewn gwaith ymchwil. Byddwn yn esbonio diben yr ymchwil ichi, ond mater ichi yn llwyr fydd cymryd rhan. Bydd eich cyfraniad yn yr ymchwil yn ein helpu i sicrhau bod y cynlluniau’n parhau’n effeithiol.

Bydd contractwyr yn defnyddio’r data a ddarperir i gynnal weithgareddau ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru a hynny'n unig, yn unol â GDPR y DU.

# Adran O: Hysbysiad Preifatrwydd: Grantiau Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru fydd rheolydd y data personol y byddwch yn ei roi inni wrth wneud cais am grant neu wrth ofyn am arian y grant. Bydd y wybodaeth yn cael ei phrosesu fel rhan o'n gorchwyl cyhoeddus (h.y. arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru) ac yn ein helpu i asesu a ydych yn gymwys i gael cyllid.

Cyn rhoi grant i chi, byddwn yn cynnal archwiliadau er mwyn atal twyll ac atal gwyngalchu arian, ac i gadarnhau pwy ydych chi. Fel rhan o'r archwiliadau hyn, mae'n ofynnol inni rannu data personol amdanoch chi ag asiantaethau atal twyll eraill.

Os byddwn ni, neu asiantaethau atal twyll, yn penderfynu eich bod yn peri risg o ran twyll neu wyngalchu arian, efallai y gwnawn ni wrthod darparu'r cyllid grant rydych wedi gwneud cais amdano, neu roi'r gorau i ddarparu'r cyllid grant presennol i chi.

Bydd yr asiantaethau atal twyll yn cadw cofnod o unrhyw risg o dwyll neu wyngalchu arian, a gall hyn arwain at eraill yn gwrthod darparu gwasanaethau, cyllid neu waith ichi.

Er mwyn asesu a ydych yn gymwys, efallai y bydd angen inni hefyd rannu gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â'ch cais â'r canlynol:

- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)
- Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol
- Awdurdodau Lleol Cymru
- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)
- Swyddfeydd Amaethyddiaeth eraill Llywodraeth y DU.
- Awdurdodau rheoleiddio, megis Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, Awdurdodau Lleol, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Heddlu.

Hefyd, mae'n bosibl y byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth â sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant, yn trosglwyddo gwybodaeth ac yn rhoi cyngor a chymorth arloesi ar ran Llywodraeth Cymru er mwyn targedu cymorth yn briodol.

Gall aelod arall o'r cyhoedd wneud cais i weld eich gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol. Wrth ymateb i geisiadau o'r fath, efallai y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ryddhau gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, er mwyn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Diogelu Data 2018 neu Reoliadau Cynlluniau Cymorth Amaethyddol (Cymhwysedd, Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2025.

Byddwn yn cyhoeddi manylion y symiau a dalwyd i ddeiliaid cytundeb sydd wedi derbyn cymorth o dan Reoliadau'r Cynllun Cymorth Amaethyddol (Cymhwysedd, Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2025.  Bydd data yn cael ei gyhoeddi ar gyfer yr holl fuddiolwyr a bydd yn cynnwys yr enw llawn, y dref bost ac ardal y cod post a'r ardal lle mae deiliad y cytundeb yn preswylio. Bydd yn cynnwys manylion y symiau a'r cynlluniau y cafodd taliad ei wneud ar eu cyfer. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn gymwys i'r deiliaid cytundeb hynny sy'n derbyn llai na £1,250.00 o gymorth perthnasol yn y flwyddyn ariannol.

Byddwn yn cadw gwybodaeth bersonol yn unol â'n polisi cadw. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn cadw'ch data personol am 7 mlynedd ar ôl y dyddiad pan fyddwch chi, fel derbynnydd y grant, yn rhydd rhag holl amodau'r grant, a phan fydd pob taliad wedi'i wneud. Os na fydd eich cais yn llwyddiannus, caiff eich manylion eu cadw am un flwyddyn ar ôl y dyddiad y gwnaethoch eu darparu.

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawliau canlynol:

- gweld y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cadw amdanoch
- gofyn inni gywiro unrhyw wallau yn y data hynny
- (o dan amgylchiadau penodol) gwrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu
- yr hawl i ofyn inni 'ddileu' eich data (o dan amgylchiadau penodol)
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan GDPR y DU, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10  3NQ

E-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Yr Ail Lawr, Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 0330 414 6421
Gwefan: https://ico.org.uk/

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y datganiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW.
Grantiau a thaliadau gwledig: hysbysiad preifatrwydd

# Adran P: Manylion Cyswllt

## Ymholiadau – Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Ar gyfer ymholiadau o bob math, cysylltwch â **Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW**

Gallwch ofyn cwestiwn unrhyw bryd ar RPW Ar-lein.

Rhaid cael apwyntiad er mwyn ymweld â'n Swyddfeydd Rhanbarthol. Gall y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid drefnu apwyntiad 'Cymorth Digidol' i chi er mwyn ichi ymweld â Swyddfa Ranbarthol a chael help gan aelod o'r staff i wneud cais a/neu hawliad.

## Gwefan Llywodraeth Cymru

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am Amaethyddiaeth a Materion Gwledig, ewch i wefan Llywodraeth Cymru. Wrth ymweld â'r wefan, gallwch hefyd gofrestru i gael yr e-gylchlythyr Materion Gwledig sy'n anfon y newyddion diweddaraf yn syth i'ch e-bost.

## Gwlad

Gwlad yw e-gylchlythyr Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau fferm a choedwigaeth a phawb sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae'n cynnwys newyddion, canllawiau a gwybodaeth hawdd eu ffeindio a'u deall.

I sicrhau eich bod yn parhau i glywed am y newyddion a'r datblygiadau diweddaraf gallwch gofrestru i dderbyn Gwlad. I gofrestru, ewch i Hysbysiadau | LLYW.CYMRU neu yn Cofrestrwch ar gyfer newyddion amaethyddiaeth a choedwigaeth (Gwlad) | LLYW.CYMRU

## Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru
d/o Canolfan Gofal Cwsmeriaid
Maes y Ffynnon
Penrhosgarnedd
Bangor
Gwynedd
LL57 2DW
Ffôn: 0300 065 3000
Ymholiadau cyffredinol: 0300 065 3000 (Llun-Gwe, 8am - 6pm)
Ymholiadau cyffredinol: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

# Atodiad A: Eitemau cymwys

## Eitemau cymwys:

1. To dros fannau bwydo da byw sy'n bod.
2. To dros fannau crynhoi da byw sy'n bod.
3. To dros storfeydd tail sy'n bod.

Wrth gyflwyno hawliad, rhaid rhoi tystiolaeth i ddangos bod y to a'r man oddi tano'n bodloni'r gofynion yn llawn.

Ar gyfer mannau bwydo da byw, crynhoi da byw a storio tail sy'n bod, rhaid i'r ymgeisydd ddangos na all dŵr dreiddio trwy'r llawr e.e. concrit.
Bydd angen dangos y lloriau yn y cais gan ddefnyddio ffotograffau â geotag.

Dylai pob adeilad fodloni BS 5502 rhan 22:2013 - sef ei fod wedi'i ddylunio i wrthsefyll y llwythi nodweddiadol y bydd yn agored iddynt, ar sail ei ddefnydd a'i leoliad. Os yw'n cael ei weithgynhyrchu oddi ar y safle a'i godi wedi hynny, dylai'r uned fod wedi cael marc CE. Ar gyfer unrhyw strwythur sydd heb farc CE, bydd angen i'r ymgeisydd ddangos ei fod yn cydymffurfio â BS 5502 rhan 22:2013 trwy ofyn i beirianwyr cymwys addas ddarparu cyfrifiadau strwythurol.

Mae angen i ddeunyddiau'r to leihau cyddwysiad a gallu gwrthsefyll cyrydiad. I'r perwyl hwnnw, dylai'r cladin fod wedi'i wneud o sment ffibr, neu, fel arall, o ddur wedi'i orchuddio â phlastig a'i inswleiddio a'i broffilio, os gall hynny fodloni'r gofyn i atal cyrydiad. Bydd y tulathau wedi'u gwneud o naill ai pren wedi'i drin neu ddur galfanedig. Pren wedi'i drin fyddai orau. Er bod dur wedi'i baentio yn gwneud y tro, byddai dur galfanedig yn well am ei fod yn para'n hirach.

Rhaid ymgorffori gwteri a pibellau glaw priodol yn y strwythur newydd.

Rhaid i'r dŵr glaw gael ei sianelu o'r man sydd newydd ei orchuddio i ddraen dŵr glân priodol neu i system casglu dŵr glaw. Rhaid sianelu gorlif o'r system casglu dŵr glaw i ddraen dŵr glân.

Rhaid amgáu'r holl slyri o fewn y safle yn unol â'r rheoliadau cyfredol a'i sianelu i storfa neu danc derbyn priodol.

| | Eitem | Disgrifiad a'r gofynion sylfaenol | Sgôr | Cost safonol fesul metr sgwâr: | Gwerth y grant fesul metr sgwâr |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Gosod to dros fannau bwydo da byw. | Strwythur to na all dŵr glaw dreiddio trwyddo, yn cynnwys pileri unionsyth i'w gynnal, gan **gynnwys gwteri a phibellau glaw**, dros fan bwydo da byw sy'n bod oedd cynt heb orchudd.<br><br>Bydd gan yr ardal gyfan o dan y to lawr concrit eisoes sy'n gallu dal dŵr.<br><br>Rhaid amgáu'r holl slyri o fewn y safle yn unol â'r rheoliadau cyfredol a'i sianelu i storfa neu danc derbyn priodol.<br><br>Pan fydd pydew neu storfa dderbyn newydd wedi'i gosod i gasglu'r slyri, rhaid rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd ysgrifenedig i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) **cyn** dechrau ar y gwaith adeiladu. Bydd angen tystiolaeth o'r hysbysiad hwn wrth hawlio. | 32 | £100 / m sg | £40.00 / m sg |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Os na allwch brofi bod yr holl slyri, dŵr ffo a dŵr brwnt (budr) yn cael eu casglu, ni fydd yr hawliad yn ddilys.<br><br>Rhaid dargyfeirio'r dŵr glân o’r to newydd i ddraen dŵr glân neu i system casglu dŵr glaw.<br><br>Rhaid codi waliau neu rwystrau parhaol, gan gynnwys gatiau, o gwmpas y man bwydo i gadw'r da byw ynddo, lle bo'n berthnasol. Ni fydd mannau bwydo dros dro yn gymwys.<br><br>Dylai'r man bwydo gael ei ddefnyddio gydol y cyfnod bwydo dros y gaeaf gyda'r da byw'n cael eu bwydo trwy drefniadau bwydo parhaol. Os defnyddir cafnau bwydo dros dro neu symudol, (e.e. i fwydo byrnau crwn) bydd angen tystiolaeth i ddangos y berthynas rhwng y man bwydo â sied cadw'r da byw a'u ffynhonnell ddŵr a bod y man bwydo'n un parhaol.<br><br>Mae trefniadau hunan-fwydo mewn storfeydd silwair a/neu storfeydd silwair a ddefnyddir fel mannau bwydo yn anghymwys o dan yr eitem hon. | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Nid yw corlannau sglodion pren ac iardiau gwellt heb loriau sy'n dal dŵr ac nad yw'r slyri ohonyn nhw yn cael ei amgáu, yn gymwys chwaith.<br><br>Rhaid i'r man dan do aros yn fan bwydo. Ni ddylai codi to drosto olygu bod modd ei ddefnyddio fel sied cadw da byw.<br><br>Ar gyfer mannau bwydo da byw nad ydynt yn cael eu defnyddio yn ystod yr haf, dylid cyflwyno ffotograffau o'r rhwystrau bwydo parhaol a'r lleoliad casglu slyri ynghyd â disgrifiad o'i ddefnydd yn y gaeaf. | | | |
| 2 | Gosod to dros fannau crynhoi da byw. | Strwythur to na all dŵr glaw dreiddio trwyddo, yn cynnwys pileri unionsyth i'w gynnal, gan **gynnwys gwteri a phibellau glaw**, dros fan crynhoi da byw sy'n bod oedd cynt heb orchudd.<br><br>Bydd gan yr ardal gyfan o dan y to lawr concrit eisoes sy'n gallu dal dŵr. | 30 | £100 / m sg | £40 / m sg |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhaid amgáu'r holl slyri o fewn y safle yn unol â'r rheoliadau cyfredol a'i sianelu i storfa neu danc derbyn priodol.<br><br>Pan fydd storfa neu bydew derbyn newydd yn cael ei osod i gasglu'r slyri, rhaid rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd ysgrifenedig i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) **cyn** dechrau ar y gwaith adeiladu. Bydd angen tystiolaeth o'r hysbysiad hwn wrth hawlio.<br><br>Rhaid dargyfeirio'r dŵr glân o’r to newydd i ddraen dŵr glân neu i system casglu dŵr glaw.<br><br>Rhaid codi waliau neu rwystrau parhaol, gan gynnwys gatiau, o gwmpas y man crynhoi i gadw'r da byw ynddo, lle bo'n berthnasol. Ni fydd mannau crynhoi dros dro yn gymwys.<br><br>Rhaid dangos pwrpas y man crynhoi e.e. iard gasglu ar gyfer parlwr godro neu fan crynhoi ar gyfer system trin barhaol. | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Nid yw'r mannau lle mae da byw yn teithio yn anaml rhwng adeiladau neu iardiau agored yn gymwys.<br><br>Mae'r mannau lle mae slyri yn cael ei grafu o adeilad i storfa ar draws iardiau agored ac sydd heb dda byw ynddyn nhw yn anghymwys.<br><br>Mannau crynhoi ar gyfer systemau trin da byw: Rhaid i'r systemau trin fod yn barhaol ac yn sownd wrth y llawr. Nid yw toeon dros systemau trin symudol yn gymwys.<br><br>Mae systemau trin defaid neu wartheg sy'n bod yn gymwys os yw'r holl slyri, dŵr ffo a dŵr brwnt (budr) o'u golchi yn cael eu hamgáu yn unol â gofynion y rheoliadau diweddaraf a'u dargyfeirio i storfa neu danc derbyn priodol.<br><br>Os na allwch brofi bod yr holl slyri, dŵr ffo a dŵr brwnt (budr) yn cael eu casglu, ni fydd yr hawliad yn ddilys. (e.e. system trin defaid lle nad yw'r dŵr ffo yn cael ei gasglu ar hyn o bryd: Bydd angen amgau'r man crynhoi a dargyfeirio'r holl slyri, dŵr ffo a dŵr brwnt (budr) i storfa neu danc derbyn priodol. Rhaid rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd ysgrifenedig i CNC cyn dechrau'r gwaith o adeiladu'r storfa ym mhob sefyllfa. | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhaid i'r man dan do aros yn fan crynhoi. Ni ddylai codi to drosto olygu bod modd ei ddefnyddio fel sied cadw da byw. | | | |
| 3 | Gosod to dros storfa dail. | Strwythur to na all dŵr glaw dreiddio trwyddo, yn cynnwys pileri unionsyth i'w gynnal, gan **gynnwys gwteri a phibellau glaw**, dros storfa dail sy'n bod oedd cynt heb orchudd.<br><br>Rhaid i'r storfa fod ar gyfer tail (solet) ac **nid slyri.** Bydd y storfa'n addas ar gyfer unrhyw sarn (deunydd gwely) sydd wedi'i halogi â thail organig y gellir ei bentyrru'n domen heb iddo chwalu.<br><br>Bydd gan yr ardal gyfan o dan y to lawr concrit eisoes sy'n gallu dal dŵr.<br><br>Mae'r hylif a ddaw o dail solet sy'n cael ei storio ar arwyneb caled yn cael ei ystyried yn slyri a rhaid ei gasglu'n briodol. Rhaid dargyfeirio'r slyri hwn i storfa slyri neu bwll derbyn priodol. Os nad oes storfa ar gael ar hyn o bryd, rhaid cadw'r holl elifion yn y cyfleuster.<br><br>Pan fydd pydew derbyn newydd yn cael ei osod i gasglu'r slyri, rhaid rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd ysgfrifenedig i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) **cyn** dechrau ar y gwaith | 24 | £100 / m sg | £40 / m sg |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | adeiladu. Bydd angen tystiolaeth o'r hysbysiad hwn wrth hawlio.<br><br>Bydd gwaelod waliau allanol yn gallu dal dŵr rhag i hylifau llygredig allu dianc, neu er mwyn atal dŵr rhag dod i mewn.<br><br>Rhaid dargyfeirio'r dŵr glân o’r to newydd i ddraen dŵr glân neu i system casglu dŵr glaw.<br><br>Rhaid i'r man dan do aros yn fan storio tail. Ni ddylai codi to drosto olygu bod modd ei ddefnyddio fel sied cadw da byw. | | | |

# Atodiad B: Gofynion ffotograffau â geotag

## Cyflwyniad

Mae ffotograff â geotag yn cynnwys gwybodaeth am y lleoliad o fewn data'r ffotograff. Bydd y rhan fwyaf o ffonau symudol sydd â chysylltiad â'r rhyngrwyd a chamera yn cofnodi'r cyfesurynnau GPS yn awtomatig. Maen nhw hefyd yn cofnodi dyddiad ac amser tynnu'r ffotograff.

Am ganllawiau cyffredinol ar ffotograffau â geotag, gweler **Grantiau a thaliadau gwledig: canllawiau ffotograffau â geotag**.

Mae angen o leiaf pedwar ffotograff ar gyfer pob eitem, wedi'u cymryd o wahanol onglau fel tystiolaeth o'r safle cyfan o fewn y cais. Lle bo modd, dylid eu tynnu o'r Gogledd, y De, y Dwyrain a'r Gorllewin.

Bydd angen i chi lanlwytho'r ffotograffau 'cyn adeiladu' wrth ichi lenwi'ch cais Seilwaith Bach. Byddwn yn eu dilysu i gadarnhau'ch bod yn gymwys i gael eich dewis.

**Rhaid cyflwyno ffotograffau â geotag fel tystiolaeth o'r canlynol:**

- Y man fydd yn cael ei orchuddio a sut mae'n cael ei ddefnyddio nawr
- Lleoliad y man mewn perthynas ag adeiladau parhaol cyfagos.
- Lloriau'r man a orchuddir.

Gellir cyflwyno lluniau ychwanegol â geotag, a dynnir fwy na'r 30 metr a ganiateir ar hyn o bryd o leoliad yr eitem, i ychwanegu cyd-destun ac i helpu i ddangos lleoliad yr eitem.

Bydd angen i ffotograffau ddangos y lleoliad, sut mae'n cael ei ddefnyddio ac, os yw'n briodol, y llawr. Os bydd y llawr wedi'i orchuddio â slyri neu dail, bydd angen golchi'r ardal briodol cyn tynnu ffotograffau â geotag.

Ar gyfer mannau bwydo da byw nad ydynt yn cael eu defnyddio yn ystod yr haf, dylid cyflwyno ffotograffau o'r rhwystrau bwydo parhaol a'r lleoliad casglu slyri ynghyd â disgrifiad o'i ddefnydd yn y gaeaf.

Os na fyddwch yn cyflwyno ffotograffau sy'n rhoi darlun clir o'r man fydd yn cael ei orchuddio a'r llawr, efallai y caiff yr hawliad ei wrthod.

Os na allwch gyflwyno ffotograffau â geotag, gallwch gyflwyno ffotograffau heb geotag gyda'ch cais. Ond bydd rhaid chi gadarnhau'r lleoliad y tynnwyd y ffotograffau ohono ar y ffurflen gais.

## Ffotograffau â geotag i gefnogi'ch hawliad

**Bydd angen i chi lanlwytho ffotograffau â geotag ar ôl y gwaith adeiladu i RPW Ar-lein. Byddwn yn cadarnhau bod y Gweithredoedd wedi'u cynnal yn y lle cywir fel y nodir yn y llythyr dyfarnu grant.**

**Dylech dynnu'r ffotograffau ar ôl adeiladu o'r un lleoliad â'r ffotograffau cyn adeiladu y gwnaethoch eu cyflwyno gyda'ch cais.**

Pan fyddwch yn cyflwyno'r hawliad, dylai'r ffotograffau ddangos y canlynol:

- Y to newydd
- Lleoliad y man mewn perthynas ag adeiladau parhaol cyfagos.
- Allfa a llif y dŵr glaw sydd wedi'i ddargyfeirio.
- Allfa / dull casglu slyri o'r man sydd wedi'i orchuddio a'r llwybr i'r tanc storio/storfa.
- Bydd angen o leiaf pedwar ffotograff i ddangos y to newydd, bob un wedi'i dynnu o wahanol onglau. Lle bo modd, dylid eu tynnu o'r Gogledd, y De, y Dwyrain a'r Gorllewin.


Gall peidio â darparu tystiolaeth ddigonol arafu'ch cais neu arwain at wrthod eich hawliad.

# Atodiad C: Matrics sgorio

## Matrics sgorio ardaloedd â blaenoriaeth o ran ansawdd dŵr a swm dŵr

| A | B | C | D | E | F | G | H | I | J | K | L |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Sgôr Gwelliant (OND I'W GYNNWYS YN Y SGÔR TERFYNOL OS YN GYMWYS) | | | | | | |
| Ardal â Blaenoriaeth o ran Ansawdd Dŵr | Lluosydd Ardal â Blaenoriaeth o ran Ansawdd Dŵr | Sgôr yr eitem | Ardal â Blaenoriaeth o ran Swm Dŵr | Pwyntiau Ardal â Blaenoriaeth o ran Swm Dŵr | Tystiolaeth o Faterion Maethynnau | SoDdGA Biolegol a 300m o Lain Clustogi | Gwyniad | Afonydd Sensitif | Llynnoedd Sensitif | Misglen Berlog yr Afon | Sgôr derfynol = (BxC)+E+F+G+H+I+J+K |
| 1 | 100 | Mewnosodwch sgôr yr eitem | 1 | 10 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 2 | 20 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 3 | 100 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 4 | 180 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 5 | 320 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 6 | 600 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 7 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 8 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | Dd/G | 5 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| 2 | 80 | Mewnosodwch sgôr yr eitem | 1 | 10 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 2 | 20 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 3 | 100 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 4 | 180 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 5 | 320 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 6 | 600 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 7 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 8 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | Dd/G | 5 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| 3 | 70 | Mewnosodwch sgôr yr eitem | 1 | 10 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 2 | 20 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 3 | 100 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 4 | 180 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 5 | 320 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 6 | 600 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 7 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 8 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | Dd/G | 5 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| 4 | 50 | Mewnosodwch sgôr yr eitem | 1 | 10 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 2 | 20 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 3 | 100 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 4 | 180 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 5 | 320 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 6 | 600 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 7 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 8 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | Dd/G | 5 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| 5 | 20 | Mewnosodwch sgôr yr eitem | 1 | 10 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 2 | 20 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 3 | 100 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 4 | 180 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 5 | 320 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 6 | 600 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 7 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 8 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | Dd/G | 5 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| NA | 10 | Mewnosodwch sgôr yr eitem | 1 | 10 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 2 | 20 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 3 | 100 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 4 | 180 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 5 | 320 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 6 | 600 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 7 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 8 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | Dd/G | 5 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |

# Atodiad D: Map Problemau Maetholion Manwl




Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhif Trwydded 0100021874, 2021. Cartograffeg gan Cangen Taliadau Gwledig, Aberystwyth.

Mae'r map hwn wedi'i atgynhyrchu o ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron. Bydd ei atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri Hawlfraint y Goron ac fe all arwain at eich erlyn neu at gynnal achos sifil yn eich erbyn. Llywodraeth y Cynulliad, Rhif y Drwydded: 0100021874, 2021. Cartograffeg gan y Gangen Taliadau Gwledig, Aberystwyth.